Adroddiad ar

Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt

Y Glebe
Llandeilo Ferwallt
SA3 3JP

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1118 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 1118 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | Ddim yn berthnasol |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 21.1%) | 5.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 11.2%) | 19.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.1% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/12/2017 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/05/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae addysgu o ansawdd uchel yn gryfder nodedig yn Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt, ac mae hyn yn meithrin ymgysylltiad cryf gan ddisgyblion, ymddygiad eithriadol o dda a chynnydd cyson. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig ac yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd mewn modd cefnogol i ymestyn eu dysgu. Maent yn cefnogi ethos yr ysgol fod 'gwneud yn dda yn yr ysgol yn cŵl'.

Un o'r cryfderau allweddol yw datblygu cwricwlwm ar y cyd sy'n hyrwyddo medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a medrau ehangach yn llwyddiannus. Mae strategaethau ymyrraeth yn cynorthwyo disgyblion â medrau gwannach yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dangos eu bod yn cyfathrebu'n aeddfed ar lafar, yn cymhwyso casgliad o strategaethau darllen yn dda ac yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig estynedig ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion. Mae rhifedd wedi'i ddatblygu'n dda, ac mae llawer o ddisgyblion yn datrys ystod o broblemau sy'n cynnwys ffracsiynau, canrannau a chymarebau yn llwyddiannus. Mae cymhwysedd digidol yn gryf ac mae disgyblion yn defnyddio technoleg i ymestyn eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

Caiff creadigrwydd ei feithrin mewn gwersi a thrwy weithgareddau amrywiol a difyr, gan gynnwys gwyliau a phrosiectau pontio'r cenedlaethau. Mae hyn yn gryfder nodedig. Caiff datblygu medrau Cymraeg ei gefnogi'n dda yn ystod gwersi Cymraeg, ond mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o gwmpas yr ysgol yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, gyda chymorth bugeiliol cryf a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol ymatebol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol. Mae cyfleoedd cyfoethogi a phartneriaethau cymunedol yn ymestyn dysgu a lles disgyblion. Rhoddir blaenoriaeth i arweinyddiaeth disgyblion, gyda chynrychiolaeth eang mewn rolau gwneud penderfyniadau.

Mae cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder nodedig, gydag adnabyddiaeth effeithiol, addysgu teilwredig ac ymyriadau targedig. Mae'r Cyfleuster Addysgu Arbenigol (CAA) yn cynnig amgylchedd anogol.

Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella o ganlyniad i weithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid. Er gwaethaf hyn, mae presenoldeb yn parhau islaw lefelau cyn y pandemig ac mae angen ei wella ymhellach.

Mae arweinwyr yn uchelgeisiol a chynhwysol a rhoddir blaenoriaeth i les disgyblion a staff. Mae'r systemau cadarn ar gyfer hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a datblygiad proffesiynol yn sicrhau bod diwylliant cryf o gydweithio ac atebolrwydd. Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth a her effeithiol, ac mae cynllunio ariannol yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau'r ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Parhau i wella presenoldeb

A2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi dwy astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â gwaith yr ysgol i ddatblygu creadigrwydd disgyblion ar draws y cwricwlwm a chydlynu datblygu medrau yn gynyddol yn effeithiol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

# Prif ganfyddiadau

## Addysgu a dysgu

### Addysgu

Un o nodweddion nodedig Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt yw ansawdd cyson uchel yr addysgu. Caiff hyn effaith gref ar gynnydd, ymgysylltiad ac ymddygiad disgyblion. Bron ym mhob achos, mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn ac yn modelu iaith yn dda, gan helpu disgyblion i ddeall geirfa newydd a datblygu terminoleg sy'n benodol i bwnc. Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol a pharchus, gan greu ethos lle mae disgyblion yn teimlo'n hyderus i gymryd rhan ac nid ydynt yn ofni gwneud camgymeriadau.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau uchel o ymddygiad a sylwgarwch disgyblion. Maent yn dechrau gwersi â gweithgareddau cychwynnol defnyddiol i atgyfnerthu dysgu blaenorol a darparu meini prawf llwyddiant priodol i arwain gwaith disgyblion. Maent yn paratoi deunyddiau o ansawdd uchel sy'n cefnogi dysgu'n dda. Mae'r nodweddion hyn yn cyfrannu at yr agweddau eithriadol o gadarnhaol mae disgyblion yn eu dangos tuag at eu gwaith. Mae bron pob un ohonynt yn cyrraedd yn brydlon, yn barod i ddysgu, ac yn gweithio'n gydwybodol trwy gydol gwersi. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i ddisgwyliadau athrawon ac yn ymgysylltu'n dda â thasgau, gan ddangos dyfalbarhad, ac yn dal ati i ganolbwyntio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n aeddfed â'i gilydd, gan gefnogi dysgu ei gilydd yn effeithiol mewn parau a grwpiau.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ofalus ac yn cynnig gweithgareddau cynyddol heriol i ddisgyblion sy'n cefnogi datblygiad eu gwybodaeth bynciol a'u medrau. Maent yn cynnig esboniadau clir i ddisgyblion o gysyniadau, gan addasu eu haddysgu'n briodol yn unol â'r cynnydd a wna disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r anogaeth a'r ganmoliaeth ddoeth a gynigir gan athrawon.

Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio holi yn effeithiol i wirio gallu disgyblion i alw i gof. Mae llawer ohonynt yn defnyddio holi penagored yn fedrus i brocio ac ymestyn ymatebion disgyblion. Maent yn cynnig cyngor defnyddiol ar gyfer gwella, gan roi cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith, a'i ailddrafftio, er enghraifft trwy asesiadau 'Pontio'r Bwlch' ('Bridging the Gap').

Ym mwyafrif y gwersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau hynod uchel o ddisgyblion, ac yn cyflwyno'u gwersi ag angerdd. Maent yn cynllunio'u gwersi yn fanwl gywir i ddal dychymyg disgyblion, herio'u rhagdybiaethau a'u hannog i feddwl yn ddwys.

Mewn ychydig o achosion, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallant oherwydd diffygion mewn addysgu. Yn y gwersi hyn, mae'r cyflymdra'n rhy araf neu'n rhy gyflym neu mae cynllunio gwael yn arwain at weithgareddau sy'n rhy isel o ran her. Yn yr achosion hyn, nid yw athrawon yn addasu eu haddysgu'n ddigonol i ddiwallu gwahanol anghenion disgyblion, ac nid ydynt yn defnyddio digon o gwestiynau penagored i ysgogi disgyblion i feddwl a'u cael i ymhelaethu ar eu hatebion.

### Medrau

Mae'r ffordd mae staff yn cydweithio i gynllunio a chyflwyno cwricwlwm sy'n cefnogi datblygiad graddol medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn gryfder arbennig. Caiff hyn ei gydlynu'n fanwl ar draws pynciau fel bod llawer o gyfleoedd cyfoethog ar gyfer disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag ADY, a disgyblion yn y CAA, i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae strategaethau ymyrraeth ar gyfer disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwannach yn cael effaith gref ar eu cyrhaeddiad.

### Llythrennedd

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn aeddfed i gyfraniadau disgyblion eraill. Mae'r ymagwedd ysgol gyfan gyson at addysgu geirfa yn effeithiol o ran helpu disgyblion i ddefnyddio ystod eang o dermau sy'n benodol i bwnc yn eu hymatebion llafar ac ysgrifenedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhannu eu meddyliau a'u syniadau'n glir, ac mae lleiafrif ohonynt yn mynegi eu hunain yn huawdl, gan ymhelaethu ar eu hatebion a dyfynnu enghreifftiau perthnasol i gefnogi'r pwyntiau a wnânt mewn modd soffistigedig.

Mae'r ysgol yn cydnabod yn glir bwysigrwydd darllen i hybu cyrhaeddiad disgyblion, cefnogi gwelliannau i'w lles a'u helpu i ddatblygu i fod yn unigolion cyflawn, moesegol a gwybodus. O ganlyniad, mae datblygu diwylliant darllen sy'n dathlu pleser darllen wedi cael ei flaenoriaethu gan yr ysgol. Cefnogir hyn gan lyfrgell sy'n cynnwys adnoddau da, clybiau llyfrau ac argymhellion darllen a rennir trwy gyfryngau cymdeithasol. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen er mwynhad, ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau darllen i gefnogi eu dysgu. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dod i gasgliad wrth adnabod gwendidau cymeriadau mewn ffuglen a mynegi trosolygon cryno o destunau llenyddol ac anllenyddol, fel ei gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn syntheseiddio gwybodaeth o ystod o destunau heriol yn effeithiol. Mae disgyblion mwy abl yn dadansoddi iaith, cymeriad a thema mewn ffordd sicr ac aeddfed.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau ysgrifennu cryf ac yn ysgrifennu'n dda ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio geirfa eang ac yn strwythuro'u gwaith yn effeithiol. Mae lleiafrif ohonynt yn ysgrifennu â hyder a dawn i ennyn diddordeb y darllenydd yn llwyddiannus. Mae ychydig o ddisgyblion

yn gwneud camgymeriadau sillafu rheolaidd, yn enwedig wrth sillafu geiriau mwy cymhleth.

### Rhifedd

Mewn mathemateg a phynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm, ceir ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, ond mewn ychydig o achosion, nid yw'r cyfleoedd hyn yn cynnig lefel addas o her i bob disgybl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhif sylfaenol cadarn. Maent yn defnyddio pedair rheol rhif yn rhugl. Mae gan lawer o ddisgyblion amgyffrediad cadarn o berthnasoedd rhannol-gyfan ac yn datrys ystod o broblemau sy'n cynnwys ffracsiynau, canrannau a chymarebau yn llwyddiannus. Mae gan ryw hanner o'r disgyblion fedrau rhifedd tra datblygedig. Maent yn cyfrifo'n rhugl gyda rhifau wedi'u mynegi fel syrdiau a'r rhai sy'n cael eu mynegi mewn ffurf safonol. Mae ganddynt fedrau algebra datblygedig ac maent yn cymhwyso'r rhain yn effeithiol i ddatrys amrywiaeth o broblemau fel cyfrannedd union a gwrthdro, a chyfrifo mewnbwn ac allbwn folteddau a cherhyntau mewn trawsnewidyddion.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o siapiau a mesuriadau. Maent yn newid rhwng gwahanol unedau yn rhwydd ac yn gallu cymhwyso'u dealltwriaeth o fesuriadau cyfansawdd fel cyflymdra a dwysedd i gyfrifo gwahanol symiau, gyda chyfrifiannell, a hebddi. Mae llawer o ddisgyblion yn dadansoddi data yn dda, yn datrys problemau sy'n cynnwys gwahanol gyfartaleddau ac yn plotio graffiau yn gywir.

### Digidol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio medrau digidol priodol ac yn defnyddio taenlenni'n effeithiol i gyfrifo ystod o weithrediadau. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o sut i aros yn ddiogel ar-lein ac effaith bosibl platfformau digidol ar les personol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio adnoddau digidol addas i ddatrys problemau ac ymchwil, er enghraifft defnyddio taenlen i gyfrifo costau cynhwysion a gwefannau addas i archwilio bwyd. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio platfformau dysgu ar-lein i gefnogi dysgu unigol a chydweithredol.

### Medrau meddwl

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn meddu ar fedrau meddwl tra datblygedig. Mae model BISHH yr ysgol (darlun mawr (big picture), gwybodaeth (information), camau (steps), mynd amdani (hit it), ôl-ddoethineb (hindsight)) yn cynorthwyo disgyblion i ymestyn eu meddwl, sgaffaldio'u dysgu a deall eu heffeithiolrwydd fel dysgwyr. Er enghraifft, mewn mathemateg, mae disgyblion yn defnyddio'u dealltwriaeth o sut gellir dangos cymarebau gan ddefnyddio modelau bar i ddatrys ystod o broblemau heriol.

## Medrau creadigol

Mae’r ddarpariaeth a’r arweinyddiaeth o ran medrau creadigol yn gryfder nodedig. Mae arweinwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth hon yn effeithiol, gan rannu arfer dda a sicrhau bod arferion creadigol y meddwl yn cael eu hintegreiddio ar draws y cwricwlwm. Mae prosiectau fel menter Ysgolion Creadigol, ‘You Grow, We Grow’ a gwyliau iechyd a lles yn cynnig profiadau cyfoethog i ddisgyblion, sy’n meithrin mynegiant ac arloesedd creadigol. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn elwa ar fewnwelediadau dilys i’r diwydiannau creadigol, gan gynnwys cyfleoedd i archwilio rolau proffesiynol fel arddangos gwaith celf yn gyhoeddus neu ddeall hawlfraint cerddoriaeth. Mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn cyfleoedd podledu i rannu sgyrsiau pontio’r cenedlaethau yn canolbwyntio ar dreftadaeth, ymdeimlad o berthyn a medrau sy’n cael eu datblygu trwy fywyd. O ganlyniad, mae medrau creadigol disgyblion yn hynod ddatblygedig.

## Medrau corfforol

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol ac yn datblygu eu medrau corfforol yn dda, er enghraifft wrth wella’u techneg dechrau sbrint. Ceir cyfleoedd niferus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau motor manwl yn ystod amrywiaeth o wersi ymarferol.

## Cymraeg

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu’n gadarnhaol yn ystod y gwersi Cymraeg, ac mae llawer ohonynt yn dangos safon dda o gywirdeb wrth ynganu geirfa newydd. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cyfieithu geiriau sylfaenol o’r Gymraeg i’r Saesneg yn gywir, a llawer ohonynt yn ateb cwestiynau yn Gymraeg gan ddefnyddio brawddegau llawn. Maent yn cynnal sgyrsiau byr yn Gymraeg mewn parau neu grwpiau ac yn gwrando’n astud ar eu cyfoedion yn ystod trafodaethau dosbarth cyfan. Mae safon Cymraeg ysgrifenedig llawer o ddisgyblion yn dda, ar y cyfan.

## Cwricwlwm

Mae gan yr ysgol ymagwedd glir a sefydledig at gynllunio’r cwricwlwm, sy’n cael ei llywio gan bedwar diben Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr a staff yn myfyrio’n rheolaidd ar fodel y cwricwlwm ac yn addasu darpariaeth yn ystyriol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion a diddordebau disgyblion. Mae’r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 yn cynnig ystod eang a chytbwys o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol.

Mae staff yn hyrwyddo ethos yr ysgol yn gyson, sef ‘mae gwneud yn dda yn yr ysgol yn cŵl’, sy’n cyfrannu at yr agweddau eithriadol o gadarnhaol at ddysgu o gwmpas yr ysgol. Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn defnyddio’r wybodaeth yma yn dda i nodi anghenion unigol a rhoi ymyrraethau priodol ar waith.

Mae’r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn nodwedd gref o’r cwricwlwm. Mae staff yn gwrando ar farn disgyblion yn ofalus er mwyn cynllunio’r cwricwlwm hwn, sy’n manteisio’n gynhyrchiol ar arbenigedd allanol i gefnogi datblygiad personol disgyblion. Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd cynlluniedig i archwilio themâu fel amrywiaeth, hunaniaeth a chymuned, gan gynnwys effaith ffigurau LHDTC+ a hanes a diwylliant Cymru. Ar draws y cwricwlwm, ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb a chynhwysiant. Caiff ymdeimlad cryf o ‘gynefin’ ei feithrin trwy ddysgu sy’n cysylltu disgyblion â’u hardal a’u treftadaeth leol.

Mae’r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau cyfoethogi sy’n ymestyn dysgu a datblygiad personol disgyblion. Mae staff yn cynnig arweiniad a chymorth buddiol yn ystod cyfnodau pontio allweddol, a cheir partneriaethau cryf ag ysgolion, colegau a chyflogwyr lleol sy’n helpu paratoi disgyblion yn dda ar gyfer eu camau nesaf. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd hynod dda o gysylltiadau â’r gymuned i ymestyn cyfleoedd dysgu, er enghraifft trwy bartneriaethau galwedigaethol ac academaidd â cholegau a phrifysgolion lleol.

Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion ddefnyddio’r Gymraeg, er enghraifft trwy’r Urdd, y Clwb Cymraeg, y Criw Cymraeg ac ymweliadau â Llangrannog. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i glywed yr iaith, a’i defnyddio, y tu allan i’w gwersi Cymraeg.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt yn gymuned ddysgu anogol a chynhwysol sydd ag ethos cryf o barch a disgwyliadau uchel. Mae’r ysgol wedi llwyddo i feithrin ymdeimlad cryf o berthyn lle mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u parchu. Mae’r perthnasoedd cefnogol rhwng staff a disgyblion yn gryfder nodedig.

Mae arweinwyr wedi creu ethos lle mae ‘gwneud yn dda yn yr ysgol yn cŵl’, ac mae hyn yn treiddio trwy waith yr ysgol. Mae’n darparu cefnogaeth werthfawr ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion, gan ddefnyddio llais y disgybl i lywio themâu perthnasol yn ystod cyfnodau cofrestru a gwasanaethau. Mae gweithgareddau yn ystod cyfnodau cofrestru a gwasanaethau ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn gweithio gyda staff ac aelodau o’r gymuned i greu fideos a phodlediadau gan rannu eu profiadau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dweud bod staff yn eu hannog i barchu pobl eraill ac yn teimlo’u bod yn cael eu trin yn deg.

### Ciplun: Llais y disgybl ac arweinyddiaeth

Mae llais y disgybl yn rhan werthfawr a dylanwadol o fywyd yr ysgol. Ceir cyfleoedd helaeth a phwrpasol i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain. Mae ystod eang o ddisgyblion yn ymgymryd â rolau arwain, ac mae'r naws cynhwysol yma yn cryfhau'r ymdeimlad o berthyn ar draws cymuned yr ysgol. Mae Senedd yr ysgol yn allweddol o ran gwella agweddau allweddol ar fywyd yr ysgol. Yn ychwanegol, mae disgyblion wedi ymgymryd â rôl arweiniol yn datblygu 'Maniffesto Llais y Disgybl Abertawe', sef menter gydweithredol ar draws y ddinas sy'n cynnwys pob un o'r ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig ar draws Abertawe. Trwy'r gwaith hwn, mae disgyblion wedi cyflwyno gerbron cabinet yr awdurdod lleol ac wedi helpu ysgogi newidiadau ar draws y ddinas, sy'n amlygu eu gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud y tu hwnt i'r ysgol.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd cyfoethogi sy'n cefnogi eu datblygiad academaidd, diwylliannol ac mewn chwaraeon. Mae'r rhain yn cynnwys côr ysgol llwyddiannus a nifer o glybiau chwaraeon poblogaidd. Mae cyfleoedd o'r fath yn cyfrannu'n gadarnhaol at hyder, lles ac ymgysylltiad disgyblion â bywyd yr ysgol.

Mae'r cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryfder sylweddol. Mae arweinwyr wedi sefydlu systemau a phrosesau cadarn i nodi a diwallu anghenion disgyblion yn y ffordd orau. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i staff yn rheolaidd, a gallant fanteisio ar wybodaeth bwysig i lywio'u cynllunio ac addasu eu haddysgu i ddiwallu anghenion disgyblion mewn gwersi prif ffrwd. Caiff disgyblion ag anghenion mwy cymhleth eu cefnogi trwy 'wersi targed personol', lle maent yn gweithio gyda staff cymorth i helpu cyflawni eu nodau. Ceir ystod eang o ymyrraethau buddiol sy'n cefnogi datblygiad academaidd a chymdeithasol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10 yn mentora ac yn cynorthwyo disgyblion iau i wella'u medrau a datblygu gwerthfawrogiad o ddarllen er pleser. Mae disgyblion ag ADY yn dilyn cwricwlwm eang a chynhwysol ac yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.

Mae'r Cyfleuster Addysgu Arbenigol (CAA) yn darparu amgylchedd anogol a grymusol. Mae llais y disgybl yn nodwedd gref, ac mae disgyblion yn gwasanaethu fel swyddogion, yn aelodau o Senedd yr ysgol, ac yn cynrychioli'r ysgol yn Senedd Cymru. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn darparu cymorth o ansawdd uchel. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni ac maent yn diwallu eu hanghenion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol bolisi ymddygiad a ddeellir yn dda. Defnyddir sancsiynau a gwobrau yn gyson, ac mae staff o'r farn eu bod yn cael cefnogaeth dda gan arweinwyr i reoli ymddygiad. Mae darpariaeth fel yr hwb cymorth bugeiliol yn chwarae rôl bwysig mewn cefnogi disgyblion sydd mewn perygl o ymgysylltu. Mae staff yn gweithio gydag

asiantaethau allanol i sicrhau bod disgyblion ag anghenion mwy cymhleth yn cael cymorth arbenigol priodol.

Mae cyfraddau presenoldeb ar gyfer disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai ag ADY, wedi cynyddu, a nifer yr absenoldebau parhaus wedi gostwng. Mae'r ysgol yn olrhain presenoldeb yn agos trwy systemau effeithiol, gan gynnwys galwadau ffôn diwrnod cyntaf a dadansoddi data presenoldeb yn wythnosol. Mae staff o fewn yr hwb bugeiliol yn chwarae rôl ganolog mewn cefnogi presenoldeb gwell trwy gynnal cysylltiad agos â theuluoedd a helpu disgyblion i oresgyn rhwystrau rhag mynychu. Er bod llawer o strategaethau defnyddiol i wella presenoldeb yn cael effaith, mae presenoldeb yn parhau i fod islaw lefelau cyn y pandemig.

Ceir diwylliant diogelu cryf sy'n cael ei ymgorffori ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr, staff a llywodraethwyr yn cael hyfforddiant priodol, ac yn deall eu cyfrifoldebau'n dda. Mae gweithdrefnau diogelu'n glir ac yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol. Mae Arweinwyr Diogelu Dynodedig yn cael hyfforddiant estynedig ac yn cynnal cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau allanol. Mae llywodraethwr diogelu dynodedig yn craffu'n fuddiol ar waith yr ysgol yn y maes hwn. Mae achosion o fwlio yn brin, ac ymdrinnir â nhw yn gyflym ac yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda â phartneriaid allanol fel Gyrfa Cymru i ddarparu arweiniad buddiol am y camau nesaf mewn addysg a hyfforddiant. Mae arweinwyr yn annog pob un o'r disgyblion i gael disgwyliadau uchel o'r hyn y gallant ei gyflawni, ac mae cyn-ddisgyblion yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i helpu codi dyheadau.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol a hynod uchelgeisiol sy'n rhoi lles a chynnydd disgyblion yn ganolog i waith yr ysgol. Caiff ei chefnogi'n dda gan dîm ymroddgar o uwch arweinwyr sydd â rolau a chyfrifoldebau sydd wedi eu dyrannu'n deg i wneud y defnydd gorau o'u cryfderau unigol. Gyda'i gilydd, maent yn mynegi gweledigaeth yr ysgol i rymuso pob un o'r disgyblion i fod yn ddysgwyr gydol oes a bod y gorau y gallant fod. Mae'r weledigaeth hon wedi cael ei rhannu'n llwyddiannus ac yn cael ei chroesawu gan randdeiliaid.

Mae arweinwyr yn ystyried barn staff ac yn sicrhau bod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i'w lles. Mae'r cydweithio rhwng arweinwyr a staff ar bob lefel yn nodwedd nodedig ac wedi arwain at ethos tîm cryf yn yr ysgol. Mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar lawer o feysydd allweddol yng ngwaith yr ysgol fel ansawdd yr addysgu, y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau yn gynyddol a gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol.

Mae arweinwyr canol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u rôl. Ceir trefniadau rheolaeth llinell cadarn a chefnogol, ac mae agenda gyffredin yn sicrhau bod trafodaethau'n

canolbwyntio'n fanwl ar addysgu a dysgu, lles disgyblion, a chynnydd yn erbyn blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Un o gryfderau arbennig yr ysgol yw'r aliniad agos rhwng hunanwerthuso, cynllunio gwelliant, rheoli perfformiad a dysgu proffesiynol. Mae calendr sicrhau ansawdd sydd wedi'i gynllunio'n ofalus yn nodi ystod addas o weithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, gan gynnwys cyfleoedd i ddisgyblion rannu eu barn a dylanwadu ar waith yr ysgol. Caiff staff ar bob lefel eu cynnwys yn y gweithgareddau hyn. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddata ac yn triongli hyn yn dda gyda chanfyddiadau o dystiolaeth uniongyrchol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn drylwyr ond, mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr canol yn nodi agweddau penodol ar addysgu sydd angen eu gwella'n ddigon manwl. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau yn ofalus.

### Ciplun: Y cyswllt rhwng hunanwerthuso a dysgu proffesiynol

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad pob un o'r staff. Mae amcanion adolygu datblygiad proffesiynol yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau'r ysgol a dyheadau aelodau staff unigol. Yn rhan o'r broses hon, rhoddir cyfleoedd buddiol i staff drafod eu gofynion dysgu proffesiynol.

Mae'r rhaglen dysgu proffesiynol wedi'i chynllunio'n dda i ddiwallu anghenion yr ysgol ac aelodau staff unigol, yn ogystal â chanolbwyntio'n agos ar flaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i staff rannu arfer dda. Er enghraifft, mae uwch arweinwyr yn nodi arbenigedd y tîm ADY, gan gynnwys staff y CAA, ac maent yn rhannu eu gwybodaeth yn ystod cyfleoedd dysgu proffesiynol gyda staff addysgu i sicrhau bod disgyblion ag ADY yn cael eu cefnogi'n dda mewn gwersi prif ffrwd.

Mae'r ysgol yn bartner arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. Mae'r bartneriaeth hon yn darparu cyfleoedd buddiol i arweinwyr weithio gyda'i gilydd a datblygu dysgu proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff.

Mae'r corff llywodraethol yn rhannu gweledigaeth yr ysgol ac mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol a'i rôl yn y gymuned leol. Mae llywodraethwyr yn wybodus ac yn cydweithio'n dda ag arweinwyr yr ysgol, gan ddarparu her a chymorth addas. Mae'r rheolwr busnes, y pennaeth a'r is-bwyllgor cyllid yn monitro sefyllfa ariannol yr ysgol yn agos. Rhennir adroddiadau ariannol manwl gyda'r is-bwyllgor cyllid ac mae cynlluniau gwariant yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r cynllunio ar gyfer y grant datblygu disgyblion, a'i werthuso, yn gadarn.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae gwaith yr ysgol i fodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a'i gwaith i helpu lleddfu effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad yn cael effaith gadarnhaol.

O ganlyniad, mae disgyblion sy’n cael eu heffeithio gan dlodi a’r rhai sydd ag ADY yn cyflawni’n dda yn yr ysgol.

Mae’r ysgol yn cyfathrebu’n rheolaidd â rhieni trwy amrywiaeth o sianelau, fel negeseuon testun, negeseuon e-bost a chylchlythyrau. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i rieni rannu eu barn ar agweddau ar yr ysgol. Mae arweinwyr yn ymateb yn dda i adborth rhieni.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio’r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  16/07/2025